### *Iesu! (Aled Jones Williams)*

Drama newydd ddadleuol gan Aled Jones Williams.

Mater gwleidyddol yw crefydd bellach, yn dilyn trasiedi Efrog Newydd a rhyfeloedd y Dwyrain Canol. Wedi ei lleoli yn y presennol. bydd 'Iesu!' yn edrych, o'r newydd, ar gymeriad hanesyddol pwysig mewn sefyllfa gyfoes – ac mae'n debyg mai merch fydd Iesu yn y cynhyrchiad yma.

"Rydan ni'n meddwl am yr Iesu tyner, am yr Iesu llawn cariad – ie, ond dwi'n meddwl bod yna Iesu hefyd sydd yn ymwneud â grym ac am ddisodli un math o rym efo grym arall.

"Dwi'n meddwl ei fod yn berson mwy cymhleth ac ar ôl y dyn – neu'r ddynes – rydw i wedi mynd a be 'di'r cymhelliad, a hwnna ydi'r peth mawr yn y ddrama yma."

"Oherwydd bod Iesu yn ffigwr crefyddol a bod yna rywbeth yn gwbl farwaidd yn y byd crefyddol Cymraeg a hefyd, yn yr ystod ehangach yn Ewrop ac yn y byd, fod crefydd yn rhywbeth treisgar ac yn rhywbeth sydd yn erbyn bywyd ac yn symud o hunan-fomwyr i bobl grefyddol sydd yn erbyn pobl hoyw, roeddwn i eisiau rhoi rhyw syniad arall nad fel yna mae hi," meddai'r awdur.

Bydd y ddrama i'w gweld yn Theatr y Sherman, Caerdydd,
5–8 Awst (yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol)
ac yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth,
nos Wener a nos Sadwrn, 10–11 Hydref.

*Ewch i'w gweld – a sgrifennwch bwt i Gair o'r Garn yn rhoi eich argraffiadau o'r ddrama.*

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 7 Medi:

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St
(01970 828026)
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
(01970 828662)
marian_hughes@btinternet.com

Babell Y Garn Gerlan Madog Nasareth Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Nasareth Madog Gerlan Y Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 4 Haf 2008





Rhed yrfa gref drwy ras y nef

Annwyl ffrindiau,

Ym mis Awst eleni, cynhelir un o ddigwyddiadau pwysicaf y flwyddyn ym mhen arall y byd, yn Beijing, China. Er yr anghyfiawnderau dynol a chrefyddol sydd yn y wlad honno, diau y bydd llygaid llawer un wedi'u hoelio'n fanwl ar yr achlysur, yn gwylio campau'r athletwyr ar y teledu gan ymhyfrydu yn eu hegni a'u dyfalbarhad.  O'm rhan fy hun, nid oes hafal i'r gwibiwr cyflym neu'r rhedwr marathon dygn am ennyn diddordeb ac edmygedd y gwyliwr.

Felly, gyda'r Chwaraeon Olympaidd ar y trothwy, tybed faint ohonoch chi a welodd y ffilm ragorol honno, *Chariots of Fire*? Y prif gymeriad yw Eric Liddell, Sgotyn ifanc a anwyd yn Tientsin, China, a'i rieni ar y pryd yn gweithio fel cenhadon yno. Yr oedd hi'n ddymuniad gan y mab, hefyd, i fynd yn genhadwr gan y gwyddai fod Duw wedi'i alw i'r gwaith ond, yn ogystal, credai Eric Liddell fod Duw wedi rhoddi'r ddawn iddo i redeg yn gyflym. Meddai, 'Pan wyf yn rhedeg, teimlaf ei fod yn ymhyfrydu ynof. Byddai rhoi'r gorau i redeg yn gyfystyr â dirmygu Duw.' Ymhen hir a hwyr, fe ddychwelodd y gwibiwr ifanc i China i genhadu a bu farw yno mewn gwersyll carcharorion, ond nid cyn ei fod wedi rhedeg y ras dros Dduw yn y Chwaraeon Olympaidd yn Paris yn 1924, pryd yr enillodd y fedal aur yn y 400 metr gan dorri record y byd.

Y mae gennym ninnau hefyd ras i'w rhedeg mewn bywyd. Cawn ein hatgoffa o hynny yn Ail Lythyr Paul at Timotheus, llythyr a ddisgrifiwyd fel 'yr un mwyaf teimladwy' o'i holl lythyrau. Sonia Paul am y pwysigrwydd o ddal ati yn ras fawr bywyd: 'Yr wyf wedi ymdrechu'r ymdrech lew, yr wyf wedi rhedeg yr yrfa i'r pen, yr wyf wedi cadw'r ffydd.' (2 Timotheus 4:7). Nid oes dim sy'n guddiedig nac astrus yn y gosodiadau yma ac y mae'r hyn a ddywed yr Apostol yn gwbl glir. Y mae bod yn Gristion yn golygu dioddef i'r eithaf, y mae'n golygu ymdrechu i'r eithaf yn erbyn y drygioni sydd o'n mewn ac o'n cwmpas ym mhobman. Ond er gwaetha'r anawsterau y mae'n bosibl llwyddo, dim ond i ni gadw'n golwg yn sefydlog ar Grist Iesu ein Harglwydd, yr hwn yntau a ymddygnodd i'r eithaf.




Er ei holl ddisgleirdeb fel gwyddonydd a'i sêl i "brofi" absenoldeb Duw, mae Dawkins yn cydnabod (er yn anfodlon) na allasai dyn (sydd wedi bod yma mewn rhyw ffurf ers rhai cannoedd o filoedd o flynyddoedd) fyth fod wedi datblygu mor llwyddiannus drwy brosesau geneteg ar ddamwain pur. Hynny ydi, y mae Dawkins yn cydnabod rhyw fath o esblygiad disgyblaethol: rhyw rymoedd bywyd sydd ymhlyg yn y broses. Onid yw hyn yn dod yn agos iawn i gydnabod yr elfen oruwchnaturiol?

3. Gosodiad Dawkins yw fod y cysyniad o Dduw yn ei hunan yn ddrwg. Dywed hyn am ein deall o Dduw: "He is a petty, unjust, unforgiving, control freak, a vindictive, blood-thirsty, ethnic cleanser, a misogynistic, homophobic, racist, infanticidal, genocidal, filicidal, megalomaniacal, sad-masochistic, intolerant, bully." Dywed hefyd fod addoli Duw wedi arwain i gymaint o ryfeloedd, poen a dinistr. Anwybydda, serch hynny, y gwirionedd amlwg mai anffyddwyr oedd Hitler a Stalin.

4. Gwendid hanfodol ymdrechion Dawkins i ddadbrofi bodolaeth Duw yw ei anallu (neu ei anfodlonrwydd) i gyfarfod wyneb yn wyneb â chalon a chnewyllyn ein cred. Er bod aruthredd y cread a holl deyrnas natur yn ein atgoffa o Dduw: fel y dywed y Salmydd, "Y nefoedd sydd yn datgan gogoniant Duw, a'r ffurfafen sydd yn mynegi gwaith ei ddwylaw ef." Eto, nid yn y bydysawd na'r ddaear y mae'r prawf terfynol o Dduw ond ym mherson yr Arglwydd Iesu Grist. **Yn ei eni gwyrthiol, ei atgyfodiad, a'i esgyniad i'r Nef, rhoddwyd i ni'r dystiolaeth ddiamheuol o fodolaeth Duw**.

Osgoi'r realaeth hon a wna Dawkins. Mae'n dirmygu – yn hytrach na thanseilio – dadansoddiad C S Lewis, sef: "Since Jesus claimed to be the Son of God, he must have been either right or else insane or a liar." Ateb (anygoel o dila) Dawkins yw: "The historical evidence that Jesus claimed any sort of divine status is minimal." Dywed hefyd, "There is no good historical evidence that he ever thought he was divine." Wel, gallasai hyn fod wedi fy nhwyllo i. Ond beth am osodiadau'r Iesu: (i) "Myfi a'r Tad un ydym"; (ii) "Yr hwn a'm gwelodd i a welodd y Tad", ac ugeiniau o enghreifftiau cyffelyb.

### *A yw Duw yn bod?*

Bore Sul, 9 Mawrth, traddododd Elystan anerchiad fel rhan o wasanaeth y Blaenoriaid yn y Garn. Ei destun oedd “Rhai sylwadau ar lyfr poblogaidd yr Athro Richard Dawkins, *The God Delusion”*.

Dyfynnodd eiriau Dawkins, “God is a delusion – a psychotic delinquent invented by mad, deluded people.” Dywed Dawkins hefyd, “If this book works as I intend, religious readers who open it will be aetheists when they put it down.”

Crynhodd Elystan ei ymateb i ddadleuon Dawkins o dan bedwar pennawd.

1. Yn gyntaf ac yn gyffredinol: sut y gall unrhyw fod meidrol o fewn ffiniau ei ddeallusrwydd dynol – pa mor ddisglair bynnag y bo – amgyffred aruthredd natur a nerth y Duw Hollalluog, Hollwybodol, Holl-berffaith – Brenin Amser a Thragwydd-oldeb? Sut y gellir amgyffred y diamgyffred? Sut y gellir dirnad yr annirnadwy? Y mae’r dimensiynau mor wahanol, a’r gwneud mor amhosib â cheisio mesur cefnfor mewn cwpan neu bwyso mynydd ar glorian cegin. Pe na bai Duw yn bod, yna nid yw o fewn cwmpawd meddwl meidrolyn i “brofi” ei anfodolaeth. Dim ond trwy nerth goruwchnaturiol “arall” y medrid gwneud hynny. Dyfynnwyd geiriau William Cowper, “Judge not the Lord by feeble sense”, a chyfieithiad gwych Lewis Edwards, “Na farna Dduw ậ’th reswm noeth”. Dywedodd hefyd fod ymosodiad Dawkins ar Dduw yn ei atgoffa o gwpled Robert ap Gwilym Ddu, “Ei brofi gan wael bryfyn / a barnu Duw gerbron dyn”.

2. Fe rydd Dawkins sylw mawr i ddarganfyddiadau Darwin dros ganrif a hanner yn ộl, yn profi patrwm esblygiad ym myd natur. At hyn, fe’n hatgoffa o honiadau’r Beibl nad oedd y ddaear ond rhai miloedd o flynyddoedd oed. Gwyddom, medd Dawkins, fod y bydysawd tua 13.8 biliwn o flynyddoedd oed, a bod bywyd o ryw fath wedi bodoli ar y ddaear hon ers tua 3.8 biliwn o flynyddoedd. Mor chwerthinllyd felly, meddai, yw straeon y cread yn Llyfr Genesis. Ond, medd Elystan, “Straeon ydynt wedi eu llunio yn chwedlonol i geisio darlunio cychwyniad dyn a bywyd.”

> Rhed yrfa gref drwy ras y nef,
> cod olwg fry i’w weled ef;
> bywyd a’i her sydd iti’n dod,
> Crist yw y ffordd, a Christ yw’r nod.

Wrth gwrs, nid yw’r ras fyth wedi’i hennill hyd nes y byddwn wedi croesi’r llinell derfyn ac am hynny ni ddylai unrhyw beth beri i ni laesu dwylo ac ymlacio ar hyd y ffordd. Ymhlith y damhegion mwyaf treiddgar a lefarodd yr Arglwydd Iesu y mae’r rhai sy’n cyfeirio at fethiant y rhai hynny a oedd wedi dechrau’r daith yn dda ond na lwyddodd i ddal ati hyd y diwedd (Luc 14:25–33, Mathew 13:5–6, 20–21; 25:8–10). Er i ninnau hefyd addo bod yn ffyddlon i’r Arglwydd Iesu, parod iawn ydym i droi cefn arno a’i adael. Efallai mai geiriau mwyaf trasig yr Efengyl yw’r rhai a lefarodd Iesu wrth y Deuddeg pan oedd hi’n ymddangos na ddymunent ei ddilyn mwyach, ‘A ydych chwithau hefyd, efallai, am fy ngadael?’ (Ioan 6:67).

Y mae gwobr i’r Cristion am gwblhau’r ras. Gwyddai’r Apostol Paul fod y dorch a roddir am gyfiawnder ar gadw iddo ac y byddai’r Arglwydd Iesu, y Barnwr cyfiawn, yn ei chyflwyno iddo pan ddeuai ei yrfa i ben. Neu, a defnyddio ieithwedd y Chwaraeon Olympaidd, y mae’r ras drosodd a’r enillydd ar y llwyfan yn disgwyl cael ei goroni ger bron y dyrfa. Coron llawenydd ydyw. ‘Ardderchog, fy ngwas da a ffyddlon … tyrd i ymuno yn llawenydd dy feistr.’ (Mathew 25:21)

> Brwydra bob dydd, cryfha dy ffydd,
> Crist yw dy nerth i gario’r dydd;
> mentra di fyw a chei gan Dduw
> goron llawenydd, gwerthfawr yw.

J S B Monsell (cyf W Rhys Nicholas)

Daliwn ati. Rhedwn y ras i’w therfyn. Enillwn y dydd. Derbyniwn y wobr.


Haf dymunol i chi i gyd.

Yr eiddoch yng ngwaith y Deyrnas,

Wyn Morris (Bugail)

# Tudalen y Plant

Rhowch lythyren gyntaf yr enw o dan bob llun i ddatrys yr adnod.




Amos 5:15

**Llongyfarchiadau i Iestyn Evans, Y Garn, enillydd cystadleuaeth 'Tudalen y Plant' y tro hwn.**

**Y tro yma, y gamp yw datrys yr adnod. Anfonwch eich atebion at y Gweinidog, drwy law eich athro / athrawes Ysgol Sul os dymunwch, erbyn 1 Medi. Fe fydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het. Cofiwch ysgrifennu eich enw ar y dudalen.**

*Cyfarfod Cystadleuol Rehoboth 2008*

Cerdd y Gadair:

Y Gwanwyn

Nosau hir y gaea'n cilio,
A chyffro brigau'r coed
A ddaw â'r glesni 'nôl i'r fro
Wrth ddeffro, fel erioed.

Dafnau mân y glaw gaiff groeso
Wrth syrthio ar y ddôl,
Gwên yr heulwen huda'r gwenyn
I'r blodyn eto'n ôl.

Tegwch natur sy'n y blodyn
Ar frigyn, dôl a llwyn,
Ac alaw beraidd 'deryn du
Yn taenu ei holl swyn.

Dychwel gog â'i chân undonog
Yn selog bob mis Mai,
Hithau'r wennol fuan lwyd-ddu
I nythu ger ein tai.

Buan aiff y gwanwyn heibio
Cyn iddo droi yn haf,
Daw ei fywyd newydd eilwaith
 gobaith 'nôl i'r claf.

*Carys Briddon*

### *Diolch*

Dymuna Rhian, Bob, Aled a Gwenan a'r teulu (Wrecsam) ddiolch o galon i bawb am y cardiau a'r galwadau ffôn yn mynegi cydymdeimlad â ni ar golli ein tad, Lewis Evans. Bu'r cyfan yn gysur mawr i ni.

Anfonwn ein cofion at bawb.



Dydd Sadwrn, 5 Ebrill, yng Nghapel Rehoboth, Taliesin, priodwyd Gwenan Angharad Jones, merch ieuengaf Dilwyn a Carys Jones, Llys Eleri, Tal-y-bont (wyres y diweddar William Llewelyn a Marion Edwards, Bron Rhiwel, Bow Street) ac Aled Rhys Jones, mab hynaf Sylvia a'r diweddar Rhodri Prys Jones, Waunfawr, Sir Gaernarfon.

Gwasanaethwyd gan ein gweinidog, y Parchedig Wyn Morris, a chyfeiliwyd ar yr organ a'r delyn gan Llio Penri. Y forwyn briodas oedd Sioned, chwaer Gwenan, a'r gwas priodas oedd Ifan Jones, brawd Aled. Yr ystlyswyr oedd Trefor Jones ac Alun Tobias.

Cafwyd y wledd briodas yng Ngwesty'r Belle Vue, Aberystwyth. Treuliodd y ddau eu mis mel yn teithio yn Sri Lanka ac Ynysoedd y Maldives. Pob dymuniad da i'r ddau.

***Ymweliad rhai o ddisgyblion ysgol Rhydypennau â'r Garn***





# OS MÊTS

Llongyfarchiadau i aelodau Os Mêts am godi £250 fel rhan o ymgyrch Oxfam i roi geifr i deuluoedd tlawd yn Affrica. Mae hyn yn golygu fod y grŵp wedi gallu prynu 10 gafr – ac felly eu bod wedi helpu 10 teulu.





Mae'r aelodau am ddiolch i aelodau'r gwahanol gapeli am eu cefnogaeth a'u cyfraniadau, ac yn arbennig i Vera Lloyd am ei harweiniad gyda threfnu'r ymgyrch.

### *Cyfathrebu neges yr Efengyl yn yr 21ain ganrif*

Yn ôl arbenigwr ym maes Cysylltiadau Cyhoeddus yng Nghymru heddiw, sef Wynne Melville Jones, sydd hefyd yn aelod ffyddlon yn y Garn, nid yw eglwysi Cymru heddiw yn cyfathrebu eu neges yn effeithiol.

"Mae'n sefyllfa drist achos dwi'n cymryd bod y mwyafrif llethol o gapeli ac eglwysi erbyn hyn yn drychineb PR," meddai ar y rhaglen radio *Dal i Gredu* ddydd Sul, 15 Mehefin 2008.

Mae'n awgrymu bod angen inni i gyd fel eglwysi ystyried y mater yma o ddifrif.

"Sawl un o'n heglwysi ni sydd wedi eistedd i lawr ac wedi meddwl:

> *Beth ydym ni'n geisio'i gyflawni?*
> *Pa mor effeithiol ydym ni?*
> *A sut ydym ni'n mynd i gryfhau a gwella'r sefyllfa?*"

Ydych chi'n cytuno â'r sylwadau hyn? Ydi'r hyn mae'n ei ddweud yn wir am eglwysi'r ofalaeth hon? Oes gennych chi syniadau neu awgrymiadau sut y gallwn gyfathrebu ein neges yn fwy effeithiol? A oes angen dulliau newydd, neu a yw'r neges ei hun yn ddigon fel y mae?

Anfonwch air at olygyddion *Gair o'r Garn* yn rhoi eich ymateb a'ch syniadau chi.

### *Côd Cristnogaeth*

Yn y gyfres ddogfen hon bydd Tweli Griffiths yn bwrw golwg o'r newydd ar y gelfyddyd, eiconau, defodau, mythau a gwyrthiau sy'n ganolog i'r ffydd Gristnogol ers dros ddwy fil o flynyddoedd.

Rhai o'r cwestiynau a godir yn rhaglenni'r gyfres yw: lle yr ydym yn mynd ar ôl inni farw; beth neu pwy yw angylion; beth yw ystyr symbolau; beth yw gwyrthiau ac a oes yna obaith am undod mewn Cristnogaeth?

Cofiwch wylio – bob nos Fawrth am 9 o'r gloch ar S4C.

Annwyl Olygydd,

Un o fy mhleserau i yw darllen emynau – cloddfa o farddoniaeth i godi'r galon, diwinyddiaeth i sbarduno'r meddwl, a theimladau dwys i gynhesu'r galon.

Ac eto ychydig iawn o sylw a gaiff y rhain gan bregethwyr bellach. Y rhan amlaf y cyfan gawn ni yw'r pennill cyntaf yn cael ei ddarllen ac aelodau'r gynulleidfa yn cael eu gadael i droi'r tudalennau i ddod o hyd i'r geiriau ac yna i ymbalfalu canu drwyddyn nhw orau gallan nhw.

Yn y dyddiau gynt byddai rhifau'r emynau a'r tonau yn cael eu dangos yn y capel i roi cyfle i ni'r gynulleidfa edrych drostyn nhw cyn dechrau'r oedfa – ac yn rheswm da dros gyrraedd yn gynnar. Ond nid yw hynny hyd yn oed yn digwydd mwyach.

Rwy i'n rhyw deimlo bod yr emyn bellach wedi colli ei bwysigrwydd yn y gwasanaeth.

Gaf fi yn wylaidd, ofyn pam?

Llinos Dafis

Llongyfarchiadau i Seiriol Hughes ar ennill gradd mewn Hanes o Brifysgol Caer-grawnt, a phob dymuniad da iddo yn y dyfodol.

Dymuniadau gorau am adferiad buan a llwyr i'n cyn-weinidog, y Parchedig R W Jones, a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Anfonwn ein cofion cynhesaf ato ef a Rhian oddi wrth holl aelodau'r ofalaeth.




Daeth nifer o aelodau ynghyd yng Ngorsaf Bad Achub Aberystwyth nos Iau, 22 Mai. Yno bu Mr Carwyn Williams yn adrodd hanes y Gwasanaeth Bad Achub yn Aberystywth, a gyda chymorth ei gyd-swyddogion arddangoswyd offer o bob math ynghyd â'r peiriannau, gan gynnwys y Bad Achub. Cafodd yr aelodau hwyl anghyffredin yn gwisgo'r siwtiau arbennnig ac yn eistedd yn y tractor a'r bad. Mae'r offer a'r peiriannau yn cael eu hadeiladu a'u gwneud yn arbennig ac yn gostus iawn.

Gwirfoddolwyr sy'n darparu'r gwasanaeth arbennig hwn ac maen nhw cael eu hyfforddi i lefel uchel iawn. Ymatebir i alwad o fewn 7 munud a gall y bad pwerus ymestyn ei chwilio hyd at 10 millitir o'r lan. Ar gyfartaledd maen nhw'n trin rhwng 7 a 10 galwad yr wythnos.

Diolch am wasanaeth amhrisiadwy gwirfoddolwyr fel hyn. Roedd yr ymweliad yn berthnasol iawn i griw Os Mêts gan fod bron 15 mlynedd er pan achubwyd tri gŵr ifanc o Landre a Bow Street ar ôl iddyn nhw fynd i drafferthion ar y môr.

### *Cyhoeddiadau'r Ofalaeth*

*Cyfeiriad newydd y Bugail*:

Berwynfa
Penrhyn-coch
Aberystwyth
SY23 3EW

e-bost: morris@coedlas.plus.com

01970 820939

16 Gorffennaf Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro
Capel y Morfa, Aberystwyth, am 2 a 6.30 o'r gloch
Ordeinir blaenoriaid yng nghyfarfod yr hwyr

*[Disgwylir cynrychiolaeth o bob capel i'r cyfarfodydd hyn]*

1 Medi: Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth yn Rehoboth, Taliesin, am 7 o'r gloch

### *Derbyn Ieuenctid yn Gyflawn Aelodau*

Ydych chi'n ifanc (neu efallai ychydig yn hŷn) ac yn dymuno cael eich derbyn yn aelod cyflawn yn un o gapeli'r ofalaeth?

Mae'r Gweinidog yn awyddus i gwrdd â chi, ac mae croeso i chi gysylltu ag ef ar 01970 820939, e-bost: morris@coedlas.plus.com

Bwriada drefnu Cyfarfodydd Paratoad yn y dyfodol agos, ac fe fydd yn hysbysu eglwysi'r ofalaeth am fanylion y cyfarfodydd.

***Ar ran holl aelodau eglwysi'r ofalaeth, hoffem ddymuno pob bendith a dedwyddwch i'r Gweinidog a'i briod yn eu cartref newydd.***

## *Gerlan*

### *Pen blwydd arbennig*

Rhyw dair blynedd yn ôl ymgartrefodd Mr a Mrs Islwyn Jones, aelodau ffyddlon yn Eglwys y Presbyteriaid yng Nghapel Hendre, sir Gaerfyrddin, yn y Borth. Dangoswyd yr un ffyddloneb ganddynt i'r gynulleidfa sydd yn cyfarfod yn y Gerlan.

Roedd Islwyn Jones yn 90 oed ar 11 Mai, a dymunwyd pen blwydd hapus iddo mewn te parti yn y festri y pnawn Mawrth dilynol.

Llywyddwyd y gweithgareddau gan y Parch. Wyn Morris, a chafwyd cyfarchion hefyd gan y Parchedigion Elwyn Pryse a Richard Lewis.

Cyflwynwyd cyfrol o waith y Parch. Elwyn Jenkins, Aberystwyth gynt, sef *Pwll, Pêl a Phulpud*, i Mr Jones, gan ddiolch iddo ef a'i briod am eu ffyddloneb mawr i'r Gerlan. Cyflwynodd Mr a Mrs Jones siec o £100 i'r Gerlan, sef cyfran o'r rhoddion ariannol a dderbyniwyd ar achlysur pen blwydd Mr Jones. Gwerthfawrogir eu haelioni yn fawr iawn.

### *Cymorth Cristnogol*

Cynhaliwyd Gwasanaeth Undebol, nos Sul, 1 Mehefin. Cymerwyd rhan y Parchedigion Ronald Williams, David Williams, Wyn Morris a Richard Lewis, ynghyd ag aelodau o'r eglwysi. Traddodwyd y bregeth gan y Parch. Wyn Morris. Eurgain Rowlands oedd wrth yr organ.

Gyda thristwch y derbyniwyd y newyddion am farwolaeth Mrs Margaret Ann Evans, gynt o Gapel Seion. Dathlodd ei phen-blwydd yn gan mlwydd oed ar 5 Ebrill eleni, ac yr oedd yn fwriad gennym gynnwys ychydig o hanes ei bywyd a'r dathlu yn y rhifyn cyfredol.

Bu farw Mrs Evans yn dawel ar 5 Mehefin yng nghartref Plas Cwmcynfelin. Bu'r angladd yng Nghapel Seion ar 12 Mehefin, gyda'r gwasanaeth yng ngofal ei gweinidog, a'r Parchedigion J E Wynne Davies, Evan Morgan ac Elwyn Pryse yn cynorthwyo. Estynnwn ein cydymdeimladau dwys ag Ina a Geraint, y ferch a'r mab, ynghyd â'r cysylltiadau oll.

Carwn ychwanegu ychydig sylwadau ar ysgrif yr Athro Gareth Wyn Jones yn ***Y Traethodydd*** (mis Ionawr eleni) at y rhai a gyflwynwyd gan Llinos Dafis yn rhifyn diwethaf *Gair o'r Garn*.

'Y Tswnamis mawr' yn nheitl ei ysgrif yw'r dadleuon pwysig sy'n codi o adweithiau gwahanol gwyddonwyr ar y naill law a rhai crefyddwyr eithafol ar y llaw arall at drychinebau mawr ym myd natur. Ond mae'n honni mai digwyddiad geobiolegol bach, dibwys oedd y tswnami yng Nghefnfor India. Yn wyneb y tswnami hwn mae cymaint wedi gofyn: 'Os yw Duw yn Hollalluog, pam na wnaeth atal i bethau fel hyn ddigwydd?'

Cytunaf â'r Athro bod trafferthion gyda'r syniad o 'Dduw hollalluog', yn wir, cysyniad ydyw sy'n ymddangos yn llawer llai aml yn yr ysgrythurau Cristnogol nag y byddai rhywun yn tybied, o ystyried mor gyson yr ymddengys yn ein gweddïau ac mewn cyfieithiadau modern o'r Beibl.

Honna'r Athro: 'Mae ar ddynoliaeth, fregus, hunanol angen fframwaith moesol ynghyd â ffynhonnell cysur ac adnewyddiad ysbrydol. Eto,' meddai, 'nid wyf wedi fy argyhoeddi bod y syniad traddodiadol am Dduw fel "Creawdwr hollalluog" yn berthnasol ar gyfer yr anghenion hyn nac yn gyson â'n dealltwriaeth o'r bydysawd.' Ychwanega: 'Nid oes tystiolaeth gredadwy bod y grymoedd sy'n gyrru'r bydysawd neu fywyd ar y blaned hon yn "ddaionus" neu'n "dda" mewn unrhyw ffordd y gallwn ei hamgyffred … Pe bai rhywun yn cofleidio terminoleg "Duw hollalluog", dim ond "Grym Duwiol" hynod o ddideimlad a didostur a benderfynai ddifa 99.99% o rywogaethau byw ar ei ffordd at *Homo sapiens sapiens'* (ac wrth hynny golyga'r ddynolryw fodern).

Pwysleisia y gall ac y dylai'r cysyniad o Dduw 'esblygu' i gyfeiriad pwyslais ar 'Dduw cariad', a sonia hefyd, gan ddilyn yr Esgob Richard Holloway, am yr angen i 'ddysgu byw gydag ansicrwydd ac ymfalchïo yn nirgelion y bydysawd a lle dynoliaeth yno'. Cytunaf eto â'r trywydd hwn, er y byddwn i'n defnyddio'r gair 'dirgelwch' yn hytrach nag 'ansicrwydd'.

Terfyna ei ysgrif heriol drwy gyfeirio at ein hangen am fframwaith moesegol newydd i fod yn sail i'n systemau cymdeithasol a gwleidyddol. Yma caiff y Rheol Euraid (Math. 7:12 a Lc. 6:31) ac egwyddorion cyffelyb mewn Iddewaeth, Bwdhaeth a Chonffwsiaeth eu dyfynnu. Geiriau olaf yr ysgrif yw'r rhain: 'Er efallai yn llai eneiniol na "Duw cariad" ein traddodiad, mae'r gweledigaethau a'r ethig yn gytbwys a chyson ac yn annibynnol ar rymoedd arall-fydol.' Ond mi fyddwn i'n honni, yn sicr mewn perthynas â'r traddodiad Cristnogol, nad oes modd ysgaru'r gorchymyn i garu cyd-ddyn oddi wrth y gorchymyn i garu Duw (Marc 12:28–34). Ac â'r Testament Newydd yn ei flaen i bwysleisio mai'r ysgogiad i ni garu yw'r ffaith fod Duw wedi'n caru'n gyntaf (1 Ioan 4:7–12).

*John Tudno Williams*

*Astudiaeth Feiblaidd yr Ofalaeth*



Yn ystod y chwarter diwethaf, mae'r astudiaeth wedi symud o Lyfr yr Actau, ar ôl edrych ar droedigaeth Paul, at y Llythyr at y Philipiaid. Llythyr a ysgrifennodd Paul o garchar (mwy na thebyg yn Rhufain) yw hwn. Mae'n dangos fod y Philipiaid, er nad oeddynt heb eu beiau, yn agos iawn at galon Paul, ac mae'n cynnwys y frawddeg enwog, sy'n crisialu holl fywyd Paul: 'I mi, Crist yw byw'.

'Byw y Ffordd', wrth gwrs, yw thema'r astudiaethau eleni, a dyma, i mi, yw cryfder ein cyfarfodydd wythnosol; nid ydym yn trafod y Beibl fel llyfr hanesyddol, ond fel gair byw Duw, sydd yn cynnig atebion i broblemau a wynebwn fel Cristnogion heddiw.

Mae cnewllyn ffyddlon yn mynychu'r dosbarthiadau yn rheolaidd, ond hoffwn weld mwy ohonoch. Peidiwch â chadw draw am eich bod yn teimlo'n swil – mae rhai aelodau yn cyfrannu i'r drafodaeth bob wythnos, rhai eraill ond yn achlysurol, neu'n gwrando'n unig. Ond, dan arweiniad sicr ein gweinidog, mae pawb yn elwa. Mae hefyd yn ffordd dda o ddod i nabod aelodau eraill yr Ofalaeth yn well.

Bydd y dosbarthiadau yn parhau tan ddiwedd mis Gorffennaf, am 7.00 nos Iau, fel arfer, ond gall newid yn achlysurol oherwydd amgylchiadau. Cewch y manylion ar wefan y Garn, neu gan Ysgrifennydd eich capel, neu Ysgrifennydd yr Ofalaeth. Edrychwn ymlaen i'ch gweld.

John Leeding

| ***Cadeirydd yr Ofalaeth*** | ***Ysgrifennydd yr Ofalaeth*** |
|---|---|
| Mr J T Brian Davies,<br>Rhos, Taliesin,<br>Machynlleth, SY20 8JG<br>betidavies@btinternet.com<br>(01970 832239) | Mr John Leeding,<br>Glannant, Taliesin,<br>Machynlleth, SY20 8JH<br>glannant@googlemail.com<br>(01970 832672) |

### *Grŵp Help Llaw y Garn*

Daeth y tymor o gyfarfodydd cyson i ben gyda 'Te Tŷ Hafan' ar 23 Ebrill. Darparwyd paned o de a chacen a stondin amrywiol gan yr aelodau, a sicrhawyd elw o £200 at Apêl Tŷ Hafan. Diolch am eich cefnogaeth.

Ar hyn o bryd rydym yn ymateb i apêl Cronfa Achub y Plant am gapiau bach i fabanod newydd-anedig yn Kenya, Sierra Leone a Tibet. Mae tua hanner y babanod sy'n cael eu geni yn Tibet yn dioddef o hypothermia yn eu hwythnos gyntaf. Felly maen nhw'n llawer mwy tebygol o ddal niwmonia, sy'n dal i ladd tua 2 filiwn o blant bob blwyddyn, yn ôl yr ystadegau.

Felly, os ydych chi'n gallu gweu, estynnwch am eich gweill. Cysylltwch â Shân (828268) neu Bethan (611502) am fwy o wybodaeth. Gall eich het olygu'r gwahaniaeth rhwng byw a marw i fabi newydd-anedig.

Prynhawn Mercher, 4 Mehefin, treuliwyd orig ddifyr yn Oriel Tir a Môr yn y Borth yn mwynhau paned a chymdeithasu. Diolch i'r pedwar gyrrwr parod eu cymwynas.

Rydym yn gobeithio cael cwmni Jane Raw Rees, Gofal Henoed Ceredigion, i gyfarfod arbennig ym mis Gorffennaf i dderbyn ein cyfraniad at yr achos teilwng hwnnw. Mwy o fanylion i ddilyn.

**Cofiwch am ein gwefan: www.capelygarn.org**

### *Wythnos Cymorth Cristnogol*

Fore Sul, 18 Mai, a hithau'n ddiwedd wythnos Cymorth Cristnogol, cynhaliwyd oedfa undebol yn y Garn. Ymunodd aelodau capeli Noddfa a Rehoboth ag aelodau'r Garn ar gyfer gwasanaeth arbennig dan arweiniad y Parchedig Wyn Rhys Morris. Ar ôl i blant yr ysgol Sul, ynghyd â'r band pres, gymryd at y rhannau agoriadol, cafwyd cyflwyniad gan y Gweinidog ar weithgareddau Cymorth Cristnogol drwy gyfrwng y dechnoleg ddiweddaraf, gyda Marian Beech Hughes yn rheoli'r cyfrwng. Llio Penri oedd wrth yr organ. Wedi hynny, neilltuwyd i'r festri i fwynhau pryd o fara a chaws, a oedd wedi'i baratoi gan Dwysli Peleg-Williams a'i thîm o gynorthwywyr er budd Cymorth Cristnogol. Dyma rai o'r bobl fu'n cyd-giniawa.



Casglwyd cyfanswm o £245.20 yn ystod yr oedfa a'r cinio. Diolch i bawb am eu cyfraniadau.



Nos Wener, Mehefin 6ed roedd hi'n noson **Te Bethlehem**, ac fel arfer roedd gwledd o fwyd wedi ei pharatoi dan gyfarwyddyd Gwenda James, arolygydd yr Ysgol Sul. Agorwyd y noson drwy weddi gan y gweinidog, y Parch Wyn Morris. Pan oedd y bwyd wedi'i glirio a'r llestri wedi'u golchi tro ein gŵr gwadd oedd hi i roi ei anerchiad. Wrth gyflwyno Gwyn Jones, Llysmaelgwyn, soniodd Gaenor Hall am ei ddiddordeb dihysbydd mewn pobl, ei gymwynasgarwch a'i ddyfalbarhad yn trefnu casgliad Cymorth Cristnogol yn yr ardal bob blwyddyn; cyfeiriodd hefyd at ei ddarllengarwch a'i wybodaeth eang am bynciau'n amrywio o wyddoniaeth a hanes at athroniaeth a barddoniaeth Saesneg.

Yn ystod araith eang-ei-chwmpawd, yn llawn gwybodaeth a hiwmor, cawsom ein cyfareddu gan fân hanesion a gwybodaeth sylweddol am Abraham Lincoln, Oliver Cromwell, Immanuel Kant, yr Ymneilltuwyr Cynnar, a chyfundrefn amaethyddol y mân rydd-ddeiliad, ymhlith pethau eraill, a'r cyfan yn tarddu o'i gof – gydag ambell i gip ar y nodiadau a gadwai yn ei boced! Ochr yn ochr â hyn i gyd cawsom gyfle i ddod i nabod y siaradwr ei hun yn well, dyn a fu am gyfnod yn 'genedl-ddyn' ymysg 'theolôgs' coleg Bala-Bangor, un sy'n nabod ffermwyr a ffermydd ledled Cymru, sy'n un o hoelion wyth Cymdeithas Edward Llwyd, sy'n feddyliwr annibynnol, cadarn ei farn, ac sy'n byw yn ein plith ers 50 mlynedd,

Wrth ddiolch iddo cyfeiriodd y gweinidog at Gwyn Jones fel 'Bonheddwr o Werinwr', teitl oedd yn crynhoi i'r dim yr argraff roedd wedi ei gwneud ar ei gynulleidfa ym Methlehem.

Cyflwynwyd tusw o flodau i Mrs Ann Jones, priod y gŵr gwadd, gan Elina Davies.

Diolchwyd hefyd i Nest Davies a Megan Davies am osod y blodau ac i Gwenda James am fod yn gyfrifol am y trefniadau.

**Gorffennaf**

*Blaenor y Mis: D Elystan Morgan*

*I gyfarch wrth y drysau: Vernon Jones / Dewi Hughes*

| | |
|---|---|
| 4 | Pwyllgor Swyddogion y Garn am 7.30 o'r gloch |
| **6** | Oedfa i'w threfnu am 10 o'r gloch<br>Oedfa dan arweiniad y Bugail am 5 o'r gloch |
| **13** | Y Parchedig D Harding Rees |
| 16 | Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro<br>Capel y Morfa, Aberystwyth am 2 a 6.30 o'r gloch |
| 18 | Barbeciw'r Garn ym Methlehem, Llandre<br>am 6.30 o'r gloch |
| **20** | Bugail<br>Cymun yn oedfa'r bore |
| **27** | Oedfaon i'w trefnu |

***Llusern yw dy air i'm traed***
***a llewyrch i'm llwybr***

CEFNOGWCH WYTHNOS
LLYFR YN ANRHEG
7-12 GORFFENNAF 2008

## Gwaith difa pydredd yn y capel

Yn ystod mis Ebrill eleni fe ddaeth yn amlwg fod yna ddiffyg yn amlygu ei hunan yng nghornel bella'r gegin ar y wal allanol sy'n wynebu'r maes parcio. Fe gafwyd barn cwmni arbenigol a chanfod bod pydredd sych yno, a'i fod efallai yn treiddio i gornel y wal o gylch y ddwy sedd ôl yn y capel. Y canlyniad oedd tynnu'r paneli wal perthnasol yn rhydd yn y gegin a'r ddwy sedd ôl yn y capel er mwyn trin y pydredd yn effeithiol.

O ganlyniad bu raid cynnal ein gwasanaethau Sul ym Methlehem, Llandre, am rai Suliau. Erbyn hyn mae'r gwaith o waredu'r pydredd a'r atgyweirio dilynol wedi'i orffen. Oherwydd natur y glanhau penderfynwyd gwahodd cwmni proffesiynol i ymgymryd â'r gwaith.

Mae'r gwaith hwn yn ychwanegol at waith arferol cynnal a chadw'r adeiladau, ac nid yw yswiriant yn ystyried digwyddiadau o'r fath. Yn naturiol, mae'r cyfan yn ychwanegiad annisgwyl at ein costau. Hyderwn, felly, y medrwn ystyried hyn yn ein cyfraniadau tuag at dreuliau angenrheidiol cynnal ein hadeiladau eleni yma yn y Garn.

Diolch yn fawr iawn i bawb am eu hamynedd a'u cydweithrediad yn ystod cyfnod yr atgyweirio.

D B Lloyd
Swyddog Adeiladau

Pan ddaw pob tymor yn ei dro
rhyfeddu wnawn at allu'r Iôr
yn creu amrywiaeth lliw a llun
ar faes a mynydd, tir a môr.
...
Ac yna'r haf a'i ddyddiau mwyn,
yr wybren las, a'r haul uwchben,
a chlywir hyfryd chwerthin plant
yn atsain eto hyd y nen.

## Awst

*Blaenor y Mis: Alan Wynne Jones*

*I gyfarch wrth y drysau: Erddyn James / Vernon Jones*

**3** Oedfa'r bore yng Nghapel Noddfa

**10** Mr Huw Roderick – oedfa'r bore yn unig

**17** Oedfa'r bore yng Nghapel Noddfa

**24** Y Parchedig Lewis Wyn Daniel am 10 ac am 5 o'r gloch

**31** Oedfa'r bore yng Nghapel Noddfa
Oedfa'r hwyr yn y Garn
dan arweiniad Mr Arwyn Pierce

## Medi

*Blaenor y Mis: Erddyn James*

*I gyfarch wrth y drysau: Alan Wynne Jones / Eddie Jenkins*

1 Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth
yng Nghapel Rehoboth am 7 o'r gloch

**7** Mr Tecwyn Jones
Bugail
Yr ysgol Sul yn ailddechrau

**14** Mr Raymond Davies

**21** Bugail
Gweinyddir y cymun yn oedfa'r bore
Oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre

**28** Y Parchedig John Picton Jones